



YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

ysgolgyfunlantaf@caerdydd.gov.uk

www.glantaf.cymru

18 Tachwedd 2022

Annwyl Rieni / Warcheidwad,

Llwyddiant eto!

Llongyfarchiadau i'r Tîm Pêl-droed dan14 a orffennodd yn 2il yn y twrnament Prydeinig a gynhaliwyd yn yr academi hyfforddi genedlaethol yn Lilleshall. Sgoriodd Elin Thomas Bl 8 bum gôl mewn tair gêm ac ennill tlws y Chwaraewr Ysgolion Prydeinig Gorau. Am gamp ardderchog!



Medalau Arian

Gradd 5 seren

Llongyfarchiadau hefyd i'n tîm arlwyio am dderbyn y gradd 5 seren mewn arolygiad diweddar. Mae staff y gegin yn cyfrannu cymaint at les cymuned ein hysgol ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am ddarparu prydu maethlon a blasus mewn cegin a ffreutur cyfyngedig iawn. Roeddem yn falch hefyd o lansio ein logos newydd ar gyfer y ffreutur, a ddyluniwyd yn wych gan Ms Lois Jones o'r Adran D&T, sy'n dangos logo'r ysgol yng Nghaffi'r Taf a'r Tŷ Gwydr.



Disgyblion hapus gyda logo newydd y ffreutur

Etholiad rhiant-lywodraethwr

Dychwelwch unrhyw bleidleisiau erbyn diwedd y diwrnod ysgol ddydd Llun 21 Tachwedd. Byddwn yn cyhoeddi'r Rhiant-Gynrychiolwyr newydd yn ein cylchlythyr nesaf ar 2 Rhagfyr.

Holiadur Rhieni: [Holiadur rhieni / Parents questionnaire 2022 \(google.com\)](#)

Gweler uchod linc i holiadur byr i glywed eich barn fel rhieni Glantaf. Byddem yn hynod ddiolchgar o glywed eich sylwadau a'ch barn ar ein gwaith wrth i ni geisio gwella ein darpariaeth.

Cyfeillion Glantaf

Diolch yn fawr i'r rhai ohonoch a ymunodd â ni am ein noson Cyri a Chwis hwyliog ym Mwyty Juboraj. Dau ddyddiad pwysig i'ch dyddiaduron: **Twmpath a Baedd Rhost** ar 24 Mawrth 2023 a **Sioe Ffasiwn Glantaf** ar 28 Ebrill 2023! Gobeithiwn y bydd y digwyddiadau hyn yn cyfrannu tuag at allu adeiladu cysgod pob tywydd ar safle'r ysgol erbyn gaeaf nesaf!

Band Pres Clwstwr Glantaf a Chyngerdd: Mercher 30^{ain} Tachwedd 11am – 4pm

Rydyn ni'n falch iawn o wahodd holl chwaraewyr offeryn pres i ddigwyddiad newydd cyffrous o fewn y clwstwr, sef gweithdy band pres ar y cyd gyda Gwasanaeth Cerdd Caerdydd. Bydd disgyblion o Bl4 i Bl13 yn ymuno â'i gilydd ar 30 Tachwedd i ddysgu ychydig o ddarnau gyda'i gilydd a pherfformio cyngerdd anffurfiol i rieni am 4pm. Cysylltwch â Mrs Amanda Williams, ein Pennaeth Cerdd os yw'ch plentyn yn dymuno ymuno â'r band ac edrychwn ymlaen at gyngerdd cofiadwy!

Hetiau bwced, cefnogi Cymru a Felindre!

Efallai i chi glywed bod Cymru wedi cyrraedd gemau terfynol Cwpan Pêl-droed y Byd yn Qatar! Bydd gêm Cymru v Iran ar Ddydd Gwener 25 Tachwedd am 10am. Ar gyfer y gêm honno byddwn yn trefnu sawl lleoliad lle bydd modd i'r disgyblion wylïo'r gêm ar sgrin fawr. Bydd unrhyw ddisgybl sydd ddim am weld y gêm neu sydd ddim yn dymuno gwylïo'r gemau oherwydd sefyllfa hawliau

dynol a rhyddid unigolion yn Qatar, yn cael treulio'r amser mewn ystafelloedd dosbarth eraill lle bydd gweithgareddau sydd ddim yn gysylltiedig â phêl-droed! Gofynnwn i ddisgyblion wisgo coch ar ddydd Gwener 28ain o Dachwedd, a chyfrannu £1 i Ysbyty Felindre sy'n cefnogi cynifer o fewn ein cymunedau.

Amserlen ffug-brofion Bl11-13 – [Amserlen Ffug Arholiadau Blwyddyn 11 2022 \(1\).docx - Google Docs](#)

Bydd ffugbrofion Bl11-13 yn cael eu cynnal 14-21 Rhagfyr gydag arholiadau y bore yn cychwyn am 10am a'r prynhawn am 12.30pm. Mae disgwyl i fyfyrwyr ymuno â gwers 1 bob dydd, ond gall myfyrwyr adolygu gartref os nad oes ganddynt arholiad ar gyfnod bore neu brynhawn.

Hamperi Nadolig

Rydym yn falch iawn o lansio ein hapêl Hamperi Nadolig ar gyfer teuluoedd lleol a allai wynebu caledi dros yr ŵyl sydd o'n blaen. Rydym wedi rhannu rhestr o eitemau sydd eu hangen a diolch am bob cyfraniad – *diolch yn fawr!*



Clwb Gwyddoniaeth

Wythnos Gwrth-fwlio: [Wythnos Gwrth-fwlio 2022: Ffilmiau Ysgolion Uwchradd -](#)

[Cymraeg / Anti-Bullying Week: Secondary Welsh - YouTube](#) Da iawn i'n myfyrwyr a gymerodd ran yn fideo wythnos Gwrth-fwlio Cenedlaethol a lansiwyd yr wythnos

hon ac i bob disgybl sy'n cefnogi eu cyfoedion bob dydd yn yr ysgol. Nodyn i'ch atgoffa hefyd o'n bwydlen o glybiau gwaith cartref ac allgyrsiol: [Gweithgareddau allgyrsiol 22/23 - Google Sheets](#)

Noson Agored Chweched Dosbarth a nosweithiau rhieni

Cynhelir ein Noson Agored Chweched Dosbarth yn Glantaf ddydd Mawrth 22 Tachwedd am 5.30yh lle byddwn yn trafod ein dewisiadau Bl12 ar gyfer myfyrwyr fis Medi nesaf. Bydd Noson Rhieni Bl 12 yn cael ei chynnal ar 1 Rhagfyr a Noson Rieni Bl9 ar 15 Rhagfyr.

Diogelwch ar yr heol

Rydym yn falch o groesawu'r parth 20mya newydd a llinellau rhybudd newydd y tu allan i giatau'r ysgol. Er hynny, roedd damwain gas yn ymwneud â disgybl yr wythnos ddiwethaf ac mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn parhau i seiclo'n beryglus a heb helmed. Siaradwch â'ch plentyn am ddiogelwch ar y ffyrdd a gofynnwn i chi beidio parcio, codi neu ollwng disgyblion ger giatau'r ysgol.

Sgwrs am waith

Yn ystod yr wythnos nesaf byddwn yn siarad â disgyblion o bob blwyddyn am eu gwaith, yn edrych ar eu llyfrau a'u ffeiliau er mwyn trafod sut y maent yn gallu gwella eu gwaith a'u cynnydd eu hunain. Mae'r sgwrsiau hyn yn werthfawr iawn wrth wrando ar brofiadau disgyblion a cheisio gwella ein cymorth a'n harweiniad fel athrawon yn yr ysgol.


Cyngerdd Nadolig - 22 Rhagfyr

Bydd ein Cyngerdd Nadolig yn cael ei gynnal yng Nghapel y Tabernacl, yr Ais ar nos lau 22 Rhagfyr. Bydd tocynnau ar gael cyn bo hir ar ParentPay a bydd rhagor o fanylion yn dilyn. Yn olaf, *wilkommen* a *bienvenue* i Herr Robin Koschel a Mme Beatrice Durand, ein cynorthwyyr Almaeneg a Ffrangeg ar gyfer eleni. Edrychwn ymlaen at eu cefnogaeth werthfawr yn y ddwy adran! Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus a dilynwch ein cyfrif trydar am bob diweddariad: @Ysgol_Glantaf



Alyas Debono, Bl 11 Cap Cymru dan17, wrth iddo adael i dwrnament rhyngwladol dan16 yn Sbaen

Yn gywir,



Matthew H T Evans

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf